Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

# Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau

# Transforming Education, Transforming Lives

*Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau*
*Transforming Education, Transforming Lives*

www.uwtsd.ac.uk

## Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgeg:

## Arwain y Dysgu: beth, sut a pham ydw i'n dysgu?

ECAD4017

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Sesiwn 1

Ionawr 2025

# Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu ...



**Rhan 1**

- Llafar, gwrando, darllen ac ysgrifennu
- Syniadau

**Rhan 2**

- Ysgrifennu cynllun gwers ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu



# ... yn y Dysgu Sylfaen

# Nod y ddarlith



Eich cyflwyno i'r Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig.

Dyfnhau eich dealltwriaeth o lafaredd, darllen ac ysgrifennu.

Meddwl am eich sgiliau llafaraedd eich hun ac ystyried sut gallant effeithio ar blant.

Casglu syniadau ar sut i ddatblygu sgiliau I, Ll a Ch yn y dosbarth.

Cwricwlwm i Gymru

Mae'r adran ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu o'r Cwricwlwm 2022 wedi ei rannu i bedwar rhan.

## Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

| 1 | 2 | 3 | 4 |
|---|---|---|---|
| Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.  | Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.  | Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu  | Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.  |

# Amser i feddwl

- Faint o blant yr ysgol / dosbarth sy'n dod o gartrefi Cymraeg?
- Faint o blant, felly, sy'n clywed y Gymraeg y tu allan i furiau'r ysgol?
- Pwy, felly, sydd â'r cyfrifoldeb o addysgu'r Gymraeg iddyn nhw?
- Pwy yw'r model llafar cyntaf a glywant?



| Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 |
|---|---|
| Rwy'n gallu gwahaniaethu seiniau, chwarae â seiniau a thrin seiniau o fewn fy amgylchedd yn ogystal ag o fewn geiriau.<br><br>Rwy'n dechrau gwahaniaethu ffonemau yn glywedol mewn gwahanol safleoedd.<br><br>Rwy'n gallu adnabod a dilyn gwybodaeth ddarluniadol a/neu gwybodaeth lafar, a chyfarwyddiadau aml-gam am bynciau cyfarwydd ac arferion. | Rwy'n gallu gwrando ar, deall a chyfathrebu ystyr cyffredinol yr hyn rwy'n ei glywed.<br><br>Rwy'n gallu gwrando ar, deall ac adalw'n ddiweddarach yr hyn rwyf wedi'i glywed.<br><br>Rwy'n gallu deall gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau, gan adnabod y prif bwyntiau.<br><br>Rwy'n gallu deall ac ymateb i ystod o gwestiynau a chyfarwyddiadau aml-gam mewn amrywiaeth o gyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio ciwiau amrywiol i ragfynegi'r ystyr cyffredinol mewn amrywiaeth o gyd-destunau llafar cyfarwydd ac anghyfarwydd. |
| Rwy'n gallu gwrando ar eraill gyda sylw cynyddol. | Rwy'n gallu gwrando ar eraill a deall y gallan nhw fod â safbwynt gwahanol i mi. |



# Ydy hi'n bwysig bod plant yn cael cyfle i siarad?




Direct teaching of essential talk skills and understanding is straightforward and should be undertaken in school classrooms.

(Lyn Dawes a Claire Sama, TALK BOX: 1)



… dylid rhoi ystyriaeth i’r math o **ddarpariaeth iaith** yn ogystal â’r ystod o brofiadau ieithyddol a diwylliannol sy’n cael eu cynnig i’r dysgwyr.

Yn y cyfnodau cynnar, mae dysgu darllen yn **ddibynnol ar yr iaith lafar** sydd gan ddysgwyr. Felly mae datblygu sgiliau gwrando a siarad da yn angenrheidiol i lwyddo wrth ddysgu darllen.

Gall dysgwyr ifanc fod yn gyfarwydd â llyfrau stori, hwiangerddi a phrint wrth iddyn nhw ddechrau addysg ffurfiol. Bydd rhai wedi dechrau adnabod llythrennau unigol a geiriau.



# Mae'r ffordd rydych yn siarad a gwrando yn gwenud gwahaniaeth mawr…

**Gwrando:** RHAID I CHI WRANDO. Os byddwch chi'n cymryd yr awenau gan y plentyn drwy godi ffocws sylw y plentyn, yna mae'r plentyn yn datblygu geirfa yn gyflymach na phe baech chi'n ceisio symud sylw'r plentyn at rywbeth gwahanol.

**Ail-ddweud:** ailadroddwch yn ôl yn y ffurf gywir ond peidiwch â chywiro lleferydd y plentyn.

**Ehangu:** rhoi sylwadau ar yr hyn y mae'r plentyn yn ei wneud/yn ei ddweud gydag ymateb estynedig.

# … ond mae'r ffordd rydych CHI yn siarad a gwrando yn gallu cael mwy o effaith!



Meddyliwch!

- Mae'n dechrau gyda bachgen yn mynd ar fws ysgol.
- Ar ôl gwylio'r fideo, trafodwch gyda'ch grŵp y negeseuon a gymerwyd gennych o'r fideo.
- Penderfynwch ar 5 neges allweddol y byddech chi'n eu rhoi i athrawon eraill am y ffordd maen nhw'n defnyddio iaith eiriol a di-eiriau, a'r ffordd maen nhw'n ymddwyn tuag at ddisgyblion os ydyn nhw am annog plant sy'n ddysgwyr uchelgeisiol, galluog.

# Dewch i feddwl …

- Nodwch cymaint o wahanol ffyrdd i ddatblygu llafaredd yn ddyddiol o fewn y dosbarth.

- Beth sydd angen sicrhau wrth ddatblygu llafaredd yn y dosbarth?


Beth welwch chi?
Cyw
Peniarth


cwpan
oergell
fforc
cyllell
cloc
tost
afal
oren
stôl
bwrdd
Cegin

# Yr ateb yw …

coch

Caerdydd

… ond, beth oedd y cwestiwn?

# Beth sy'n gyffredin?







# Beth sy'n wahanol?

# Pa un sy'n eithriad?





# Beth sy'n gyffredin?







| Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 |
|---|---|
| Rwy'n gallu mwynhau rhannu llyfrau a deunyddiau darllen a'u trin fel darllenydd. | Rwy'n gallu defnyddio cyfatebiaethau graffem-ffonem wrth ddarllen. |
| Rwy'n gallu defnyddio unedau sain o amrywiol feintiau er mwyn dysgu darllen. | Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i ddarllen gyda rhuglder cynyddol. |
| Rwy'n gallu segmentu a chyfuno. | Rwy'n gallu darllen gwahanol destunau gan ddefnyddio ystod o strategaethau i bennu ystyr. |
| Rwy'n gallu deall fod perthynas un-i-un rhwng y gair ysgrifenedig a'r gair llafar. | Rwy'n gallu adnabod nodweddion gwahanol fathau o destunau a defnyddio iaith briodol i siarad amdanyn nhw. |
| Rwy'n dechrau datblygu fy ngwybodaeth o gyfatebiaeth graffem-ffonem. | Rwy'n gallu darganfod a defnyddio gwybodaeth o wahanol ddeunyddiau rwyf yn eu darllen. |
| Rwy'n dechrau adnabod a darllen geiriau aml eu defnydd. | |
| Rwy'n gallu defnyddio cyd-destun a lluniau i'm helpu i ddeall yr hyn rwyf yn ei ddarllen. | |
| Rwy'n dechrau darllen yn ôl yr hyn yr rwyf yn ei ysgrifennu. | |



# Munud i feddwl …

Pa fathau gwahanol o ddarllen sy'n digwydd mewn dosbarthiadau?







| Math? | Pwy sy'n darllen? | Faint o ddisgyblion? | Lefel ddarllen? | Pa mor aml? | Amrywiaeth testun? | Pwrpas? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Stori dosbarth | Athro | Dosbarth gyfan | Gall fod llawer yn uwch os yw'r testun yn ddiddorol | Dyddiol yn ddelfrydol, diwedd dydd? | Llawer o ffuglen ond ffeithiol hefyd | Athro yn modelu y broses ddarllen ac i'r disgyblion fwynhau |
| Darllen ar y cyd | Athro | Dosbarth gyfan | Ychydig yn uwch na lefel y disgyblion | Cyson | Ffuglen neu ffeithiol | Modelu sgiliau darllen penodol |
| Darllen grŵp dan arweiniad | Athro neu ddisgybl | 3 – 6 disgybl | Ar lefel y disgybl neu'n uwch | Cyson | Pob math | Nod yw bod y disgybl yn darllen yn rhugl gan ddadansoddi |
| Darllen pâr | Athro a disgybl | 2 ddisgybl | Ar lefel y disgybl neu'n uwch | Cyson | Pob math | Trafod cynnwys a geiriau anghyfarwydd |
| Darllen annibynnol | Disgybl unigol | 1 disgybl | Lefel darllen y disgybl | Mor aml a phosib | Amrywiaeth o lenyddiaeth | Disgybl yn gallu ymarfer ac i ddatblygu hoffter o lyfrau |

# Munud i feddwl…



Pam bod darllen i ddisgyblion yn y Dysgu Sylfaen yn bwysig?



# Pam bod darllen i ddisgyblion yn y Dysgu Sylfaen yn bwysig?

- Mae'n gyfle i fodelu **sut** mae darllen.
- Modelu beth yw darllen da. (Mae'n sgíl sy'n rhaid ei hymarfer)
- Cyfle i gyflwyno geiriau / ymadroddion / idiomau newydd.
- Ffordd dda o ddatblygu sgiliau Gwrando.
- Ffordd dda o ddatblygu sgiliau Llafaredd.
- Ffordd dda o drafod a datblygu syniadau newydd.
- Ffordd dda o gyflwyno testunau newydd.

# Datblygu sgiliau darllen unigol …









Awdures:
Eirian Lloyd Jones

## Pam y teitl, Tric a Chlic?

Yn syml, mae **tric** mewn rhai geiriau ac mae angen **clic** y camera i gofnodi geiriau aml ddefnydd yn y cof.

Cynllun yw hwn sy'n addysgu sgiliau ffoneg synthetig sy'n sail i addysgu darllen ac sydd felly yn:

addysgu sain a ffurf llythrennau

addysgu strategaethau adeiladu i ddarllen a thorri geiriau i sillafu

annog rhuglder a mynegiant wrth ddarllen o'r dechrau un

cynnig dulliau addysgu rhyngweithiol

atgyfnerthu'r camau yn rheolaidd

symud yn gyflym o un cam i'r llall

PWYSIG Dylid sicrhau bod y disgyblion wedi cael profiadau o wrando, clywed ac arbrofi ag amrywiaeth o synau a seiniau gan ddatblygu eu sgiliau gwrando cyn dechrau gweithredu.

# Cam 1




# Cam 2




# Cam 3



# Beth nesaf?

Parhau i ddarllen grwp





Datblygu i fod yn ddarllenwr annibynnol sy'n datblygu sgiliau darllen unigol



# Dull Pie Corbett … sut i addysgu'r storïau i'r plant?



- Dewiswch stori rydych chi'n ei hoffi a bydd y plant yn ei mwynhau.
- Rhaid dweud y stori wrth y disgyblion bob dydd, efallai, sawl gwaith y dydd.
- Wrth ddweud y stori, bydd angen defnyddio symudiadau a map stori.
- Does dim rhaid cymryd amser hir iawn i wneud hyn – mae treulio ychydig o funudau'n ddyddiol yn gweithio'n effeithiol iawn.
- RHAID ei dweud yn ddyddiol gan mai'r nod ydy bod y disgyblion yn dysgu'r stori ar eu cof. (Bydd hyn yn gallu cymryd rhai wythnosau).
- Ar ôl dweud y stori unwaith, ewch ati i dynnu llun map (gallwch wneud hyn gyda'r disgyblion neu o flaen llaw).
- Pwrpas y map stori ydy cyfleu'r stori'n weledol.
- (Ar ôl i chi ddefnyddio'r map gyda'r disgyblion, gallan nhw greu eu map stori eu hunain. Gall y plant ieuengaf gopïo eich un chi a gall y plant hyn greu un ei hunain o'u cof).
- Tra eich bod yn dweud y stori, drwy ddefnyddio'r map, defnyddiwch symudiadau corfforol hefyd.

# Dull Pie Corbett … sut i addysgu'r storïau i'r plant?




Tasg ymarferol!



# Dull Pie Corbett … y nod




Ar ôl dysgu stôr o straeon o'r dosbarth Derbyn, y
nod yn y pendraw, yw bod
y disgyblion yn medru ysgrifennu'r stori maen yn ei dysgu a hynny yn eu
geiriau eu hunain.

Nod pellach y
dull hwn yw bod disgyblion yn dysgu addasu straeon cyfarwydd ar ôl
dysgu stori ar ycof.  Gallan nhw wneud hyn drwy newid manylion o'r sto
ri, e.e.
y cymeriadau / newid safbwynt /  ychwanegu gwybodaeth / newid y
diweddglo, a.y.y.b

| Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 |
|---|---|
| Rwy’n gallu cyfathrebu gan wneud marciau, darlunio symbolau neu ysgrifennu llythrennau a geiriau mewn amrywiaeth o gyd-destunau.<br><br>Rwy’n dechrau ffurfio llythrennau’n gywir gan afael yn briodol yn yr offer ysgrifennu. | Rwy’n gallu ysgrifennu’n ddarllenadwy. |
| Rwy’n dechrau ysgrifennu gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd.<br><br>Rwy’n gallu ysgrifennu geiriau ac ymadroddion gan ddefnyddio gwybodaeth am lythrennau a’r seiniau maen nhw’n eu cynrychioli. | Rwy’n gallu sillafu geiriau afreolaidd cyffredin yn gywir.<br><br>Rwy’n gallu defnyddio’r hyn rwy’n ei wybod am sain a phatrwm llythrennau yn gywir yn fy sillafu.<br><br>Rwy’n gallu rhoi ymgais ar sillafu geiriau anoddach mewn ffordd resymol gan ddefnyddio ystod o strategaethau. |
| Rwy’n ymwybodol o sut mae geiriau’n cael eu gwahanu gan fylchau.<br><br>Rwy’n dechrau dod yn ymwybodol o sut mae prif lythrennau ac atalnodau llawn yn pennu ffiniau brawddegau. | Rwy’n gallu defnyddio atalnodi cyfarwydd. |



# Y broses ysgrifennu …



Gwrando
→ Adnabod llythrennau
→ Geiriau
→ Brawddegau
→ Ysgrifennu estynedig



# Y cam cyntaf …

**Datblygu sgiliau echddygol**
(fine motor skills)…











Un elfen bwysig o ddatblygu llythrennedd yw'r cyfleoedd gaiff plant ifainc i farcio, hynny yw, i greu marc ar bapur, mewn tywod, gyda phaent neu, fel babi, gyda'i fys mewn bwyd.

(Siencyn a Richards, 2010, t.167)

- gwneud marciau
- sgriblo di-eglurhad
- sgriblo ag eglurhad
- ymgais i ysgrifennu llythrennau
- gweithio o'r chwith i'r dde











# Dechrau ysgrifennu







## Cam cynnydd 1

Rwy'n gallu cyfathrebu gan wneud marciau, darlunio symbolau neu ysgrifennu llythrennau a geiriau mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Rwy'n dechrau ffurfio llythrennau'n gywir gan afael yn briodol yn yr offer ysgrifennu.

Rwy'n dechrau ysgrifennu gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd.

Rwy'n gallu ysgrifennu geiriau ac ymadroddion gan ddefnyddio gwybodaeth am lythrennau a'r seiniau maen nhw'n eu cynrychioli.

# Dechrau ysgrifennu





**ysgrifennu gan ddefnyddio model**

**llunio rhestrau**

## Cam cynnydd 1

Rwy'n gallu cyfathrebu gan wneud marciau, darlunio symbolau neu ysgrifennu llythrennau a geiriau mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Rwy'n dechrau ffurfio llythrennau'n gywir gan afael yn briodol yn yr offer ysgrifennu.

Rwy'n dechrau ysgrifennu gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd.

Rwy'n gallu ysgrifennu geiriau ac ymadroddion gan ddefnyddio gwybodaeth am lythrennau a'r seiniau maen nhw'n eu cynrychioli.

Dyma Aled Afal. Mae Aled Afal yn wyrdd.

2



Aled Afal

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David
Yr Athrofa Centre *for* Education Addysg i Gymru | Education for Wales
PDPA APLP
Trawsnewid Addysg, Trawsnewid Bywydau
Transforming Education, Transforming Lives

# Tasg

Ysgrifennwch y brawddegau isod gan ddilyn cynllun Aled Afal.



mae hi'n braf heddiw.
roedd hi'n stormus ddoe.
yfory dwi'n gobeithio na fydd hi'n bwrw glaw.






Mae iaith yn cael ei ddysgu orau pan fydd wedi'i gwreiddio mewn cyd- destun.





# Defnyddio lluniau i ddatblygu iaith

Beth ...?

Pa liw ...?

Sawl ...?

Faint o ...?




Oes ...?

Ydy ...?

Pam ...?

Sut ...?

Llythrennau

Geiriau

Brawddegau

Ysgrifennu estynedig



Dyma Wendi Wlanog.

Mae hi'n mynd am dro.

# Cynhesu ar gyfer ysgrifennu …

mae

melyn

coch

glas

du

**Pa un sy'n wahanol?**

# Cynhesu ar gyfer ysgrifennu …

Rydw i'n ______________________________.

Gorffennwch y frawddeg.

# Dull Pie Corbett … y nod

Ar ôl dysgu stôr o straeon, y nod yn y pendraw, yw bod y disgyblion yn medru **ysgrifennu'r stori** maent yn dysgu a hynny yn eu geiriau eu hunain.

Nod pellach y dull hwn yw bod disgyblion yn dysgu addasu straeon cyfarwydd ar ôl dysgu stori ar y cof. Gallan nhw wneud hyn drwy **newid manylion o'r stori**, e.e. y cymeriadau / newid safbwynt / ychwanegu gwybodaeth / newid y diweddglo, a.y.y.b




D I O L C H